



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gofalus Cyf

**Fflat 1 Prospect Place
Crymych
SA41 3QQ**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/05/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Gofalus Cyf

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Gofalus CYF
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	22 Chwefror 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae Gofalus yn wasanaeth lle mae'r bobl yn cael gofal dibynadwy o ansawdd da, gan dîm o weithwyr gofal sydd wedi'u hyfforddi'n addas, ac sy'n cael ei arwain yn effeithiol gan reolwr profiadol.

Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn cael yr amser sydd ei angen arnynt i gynnig gofal mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r gweithwyr gofal yn hyblyg, gan gydnabod anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Mae'r trefniadau llywodraethu yn gadarn, a rhoddir pwyslais ar ansawdd. Gall y bobl gael gwasanaeth yn Gymraeg gan fod nifer fawr o'r tîm yn siarad Cymraeg.

Llesiant

Mae'r bobl yn ddiogel gan fod y gweithwyr gofal yn gwybod beth sy'n rhaid iddynt ei wneud os byddant o'r farn bod risg y bydd unigolyn yn cael ei gam-drin, ei niweidio neu ei esgeuluso. Mae'r staff yn "100%" hyderus y byddai'r rheolwr yn cymryd unrhyw bryderon o ddifrif, ac y byddai hefyd yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu'r bobl.

Mae gan y bobl gydberthnasau da iawn â'r unigolion sy'n gofalu amdanynt. Dywedodd un person "*I like having them. I get on very well with them, we have a very good laugh*" ac mae'r perthnasau yr un mor gadarnhaol, gan ddisgrifio'r tîm fel "*angels*", gan ychwanegu "*they have helped us so much*". Mae sylwadau eraill yn cynnwys "*there are some brilliant carers*"; "*staff are amazing*" a "*couldn't get any better*". Mae'r gweithwyr gofal yn parchu cartref y bobl; ac maent bob amser yn clirio ar ôl bod yno. Maent yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau sydd ganddynt â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt a'u teuluoedd ac yn gwerthfawrogi eu gwaith, gydag un yn dweud ei fod yn cael ei gymell drwy wybod faint o wahaniaeth y mae'n ei wneud i'r bobl.

Caiff llesiant ei wella o ganlyniad i werthoedd y gwasanaeth, sy'n cael eu rhannu gan y tîm. Llwyddwyd i gynnal y safonau uchel a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Gofal a Chymorth

Caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod sut i adnabod arwyddion o friwiau pwysu ar y croen yn ogystal â mathau eraill o salwch. Maent yn gwybod sut i atgyfeirio at y meddyg teulu a'r nyrsys ardal, ac mae'r cofnodion yn dangos sut mae rhai ohonynt wedi gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn cael y gofal gorau. Mae'r perthnasau yn cadarnhau eu bod yn cael gwybod bob amser os bydd gan y gweithwyr gofal unrhyw bryderon am y bobl.

Cedwir cofnodion gofal papur. Mae'r cynlluniau gofal yn fanwl ac yn rhoi gwybodaeth glir iawn i'r gweithwyr gofal am sut y mae'r bobl am i'w gofal a'u cymorth gael eu cynnig. Cafodd y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg eu hadolygu'n ddiweddar ac mae'r cofnodion yn ddefnyddiol i'r gweithwyr gofal, sy'n cael amser i'w darllen. Mae'r cofnodion dyddiol yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth, ac yn dangos tystiolaeth bod y cynlluniau gofal yn cael eu defnyddio i lywio a chyfarwyddo'r gofal.

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda iawn; maent yn gwybod beth sy'n bwysig iddynt ac yn adnabod eu teuluoedd. Mae lefel dda o barhad, ac mae'r bobl yn gweld yr un gweithwyr yn rheolaidd. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cytuno bod y staff yn eu hadnabod.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn ffordd hyblyg iawn ac yn barod i newid amseroedd ymweliadau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfleus i'r bobl pan fydd yn gallu gwneud hynny. O ganlyniad, llwyddodd un person i fynychu digwyddiad teuluol pwysig na fyddai wedi gallu ei fynychu fel arall. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ddibynadwy iawn. Ni chafodd unrhyw apwyntiadau eu methu, hyd yn oed yn ystod y tywydd garw iawn, ac os bydd y gweithwyr yn debygol o fod yn hwyr, maent yn rhoi gwybod i'r bobl.

Nid yw'r gweithwyr gofal yn rhuthro. Mae ganddynt amser i gynnig gofal mewn ffordd bwyllog ac maent yn cydweithio fel tîm, sy'n golygu, os bydd gofal un person yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, y gall cydweithiwr arall gynnal yr ymweliad nesaf er mwyn gwneud yn siŵr na fydd oedi diangen wrth roi gofal i'r bobl.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae rhai trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i fonitro ansawdd. Y Rheolwr yw'r Unigolyn Cyfrifol hefyd, ac mae wedi ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr a myfyriol sy'n nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a'r meysydd yr hoffai eu gwella. Mae gan y tîm gofal lawer o barch tuag at y rheolwr; felly hefyd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u perthnasau, gydag un ohonynt yn dweud "*Clients always come first*" ac un arall yn dweud bod y rheolwr yn gwneud y swydd yn "*worthwhile*", gan ychwanegu ei fod yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth dda a bod y rheolwr yn poeni am y bobl a'r busnes, gan fynd gam ymhellach er mwyn sicrhau bod pethau'n gweithio'n iawn.

Mae'r gweithwyr gofal yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda iawn gan eu cydweithwyr, gan gynnwys y gweithwyr gofal; y rheolwr a'r staff gweinyddol. Mae uwch-aelodau o'r staff ar gael bob amser drwy system ar alwad. Disgrifiodd un person y gwasanaeth fel "*like a family*" gan sôn sut y maent yn cydweithio mewn ffordd hyblyg i ddiwallu anghenion y bobl.

Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n addas. Mae'r matrices hyfforddiant yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ac mae tystysgrifau mewn ffeiliau yn cadarnhau bod hyfforddiant wedi'i gwblhau mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys Symud a Codi a Chario; cyfrinachedd; gofalu am friwiau pwyso a gofal y geg. Mae'r perthnasau o'r farn bod y gweithwyr gofal yn fedrus, a'u bod yn gwybod pan fydd y bobl yn mynd yn sâl a phryd y dylid atgyfeirio achos at weithwyr proffesiynol eraill.

Mae'r trefniadau goruchwylio yn gyfredol ar y cyfan. Mae'r gweithwyr gofal yn cael adborth cytbwys ar eu gwaith er mwyn eu helpu i ddatblygu'n broffesiynol, a chynhelir hapwiriadau sy'n ymdrin â meysydd amrywiol, gan gynnwys y ffordd y mae'r gweithwyr gofal yn cyfathrebu â'r bobl a sut maent yn cyflwyno eu hunain.

Mae ffeiliau'r staff yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Maent yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen, gan gynnwys profion adnabod; tystiolaeth o wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a geirdaon priodol. Dylid esbonio pob bwlch rhwng swyddi.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Dyddiad Cyhoeddi 14/06/2023